



Monitor Annibynnol

Adroddiad Blynyddol 2021



Cyflwyniad



Dyma nawfed Adroddiad Blynyddol y Monitor Annibynnol (IM) ar gyfer y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r cyfnod rhwng Ionawr a Rhagfyr 2021.

Llynedd, yn Adroddiad Blynyddol 2020, ni wnes i unrhyw argymhellion newydd am newid. Ysgrifennodd y Gweinidog Diogelu ataf ar 13 Gorffennaf 2021 gyda'i hymateb i Adroddiad Blynyddol 2020, a chyhoeddwyd ei llythyr o fewn yr Adroddiad Blynyddol y Llynedd.

Nid wyf yn gwneud unrhyw argymhellion newydd yn yr Adroddiad Blynyddol 2021 hwn ac rwy'n rhoi diweddariad ar yr holl argymhellion blaenorol.

Trosolwg o'r flwyddyn

Pandemig Covid-19

Drwy gydol 2021, mae'r pandemig Covid-19 wedi parhau i gael effaith drom ar fywydau personol a gwaith pobl ledled y wlad. Fodd bynnag, er gwaethaf yr heriau parhaus hyn, fy arsylwad cyffredinol yw bod y drefn ddatgelu yn ei chyfanrwydd wedi parhau i ddangos gwytnwch a hyblygrwydd yn ei hymateb i amgylchiadau newidawdy 2021.

Adolygiad y Gyfundrefn Datgelu a Gwahardd

Ym mis Gorffennaf 2021, cyhoeddodd Llywodraeth EF y byddai'r Swyddfa Gartref yn "comisiynu adolygiad o'r gyfundrefn datgelu a gwahardd yng Nghymru a Lloegr i roi sicrwydd ar ei heffeithiolrwydd o ran diogelu'r rhai sy'n agored i niwed". Yn dilyn hynny, dywedodd y Gweinidog Diogelu wrth y Senedd mai "ffocws yr adolygiad fydd nodi materion allweddol sy'n peri pryder am y gyfundrefn bresennol; ystyried ymatebion cyfredol iddynt; asesu a chynghori ar risgiau a chyfleoedd; a gwneud argymhellion i'w gwella".

Ym mis Chwefror 2022, cyhoeddwyd mai Mr Simon Bailey sydd wedi'i benodi i arwain yr adolygiad, gyda'r nod o gyflwyno adroddiadau i Weinidogion yn haf 2022. Rwyf eisoes wedi ymgysylltu â Mr Bailey a'i dîm, ac yn naturiol bydd yn cymryd diddordeb parhaus yng nghynnydd yr adolygiad, ei ganfyddiadau a'i argymhellion maes o law i'r Llywodraeth.

Atgyfeiriadau IM

Yn 2021, gwnaed cyfanswm o 4,317 o ddatgeliadau "gwybodaeth ychwanegol" ar Dystysgrifau Cofnodion Troseddol Manylach gan y DBS a Mynediad Gogledd Iwerddon (ANI) gyda'i gilydd. Gwnaed cyfanswm o 117 o atgyfeiriadau datgelu dadleuol yn 2021 i swyddfa'r Monitor Annibynnol. Mae hyn yn golygu bod 2.71% o'r holl ddatgeliadau a wnaed o fewn y flwyddyn yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon wedi cael eu dadlau a'u hatgyfeirio ataf i'w hadolygu.

Fel cymhariaeth, yn 2020 roedd cyfanswm o 87 achos (1.87% o'r holl ddatgeliadau manylach ar draws y tair Gwlad Gartref) yn destun anghydfod ac fe'u hatgyfeiriwyd ataf i'w hadolygu.

Fodd bynnag, rhaid trin ystadegau 2021 yn ofalus, gan eu bod yn codi o flwyddyn anomalaidd arall, oherwydd effeithiau parhaus y pandemig Covid-19 ar batrymau recriwtio cenedlaethol

a galwadau cyfnewidiol am Dystysgrifau Cofnodion Troseddol Manylach.

Gogledd Iwerddon

Estynnodd y Ddeddf Cyfiawnder (Gogledd Iwerddon) 2015 rôl y Monitor Annibynnol i gynnwys yr adolygiad o anghydfodau datgelu a wneir yng Ngogledd Iwerddon. Yn 2021, doedd dim atgyfeiriadau at yr IM i'w hadolygu yn ymwneud â datgeliadau a wnaed gan Wasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon.

Fel rhan o rôl yr IM, rwyf wedi adolygu sampl o achosion eleni o Gogledd Iwerddon lle mae'r heddlu wedi penderfynu naill ai datgelu, neu beidio â datgelu, gwybodaeth. Roedd rhai pwyntiau dysgu wedi'u nodi drwy'r ymarfer hwn, ond dim pryderon sylweddol. Mae adborth manwl o'r ymarfer samplu hwn wedi'i roi i Wasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon i'w ystyried.

Adolygiadau Barnwrol

Adolygiad Barnwrol yw'r hawl derfynol sydd ar gael i unrhyw un sy'n anghytuno â'r wybodaeth a ddatgelwyd gan yr heddlu ar eu Tystysgrif Cofnodion Troseddol Manylach.

Doedd dim Adolygiadau Barnwrol yn ymwneud â'r Monitor Annibynnol a gyrhaeddodd ganlyniad Llys yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

Prydlondeb Trin Anghydfod Datgelu IM

Mae'r Canllawiau Datgelu Statudol yn nodi y dylid gwneud penderfyniadau datgelu yn amserol. Rwyf wedi parhau i roi sylw manwl i'r cyflymder y mae anghydfodau datgelu IM yn cael eu datrys ag ef.



Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cael ei rannu ar wahanol gamau rhwng y DBS / ANI, yr heddlu a fy swyddfa fy hun.

Eleni bu cyfnod hwy amlwg yn hyd cyfartalog yr amser a gymerwyd gan yr heddlu wrth ddelio â cham un o broses anghydfod yr IM h.y., pan fydd yr heddlu perthnasol yn adolygu eu penderfyniad datgelu, cyn i'r achos gael ei atgyfeirio at yr IM i'w ystyried yn annibynnol.

Yn 2020, 36 diwrnod oedd nifer y dyddiau gwaith a gymerwyd gan yr heddlu ar gyfartaledd i ddelio ag adolygiad anghydfod datgelu. Yn 2021, yr amser a gymerodd yr heddlu ar gyfartaledd oedd 67 diwrnod. Fodd bynnag, mae'r ffigyrau perfformiad cyfartalog hyn yn cael eu gwro gan nifer fechan o achosion. Pe byddai 11 achos eithriadol, y cymerodd pob un dros 200 diwrnod i'w adolygu, yn cael eu tynnu o'r ystadegau cyffredinol, byddai hyd cyfartalog yr amser a gymerwyd gan yr heddlu ar y cam adolygu yn 2021 wedi bod yn 31.7 diwrnod gwaith.

Trwy gydol y flwyddyn, rwyf wedi bod yn gweithio gyda'r heddlu a DBS, i ddeall y rhesymau pam fod achosion anghydfod datgelu IM wedi'u gohirio. Mae'r rhesymau dros hyn yn benodol i bob achos dan sylw. Fodd bynnag, un ffactor cyson trwy gydol 2021 fu effeithiau cyfansawdd y pandemig Covid-19 parhaus.

Yn 2022 byddaf yn dechrau ar broses fonitro newydd, gyda chymorth y DBS a'r heddlu, sy'n ceisio sicrhau bod perfformiad yn y maes hwn yn y dyfodol yn gwella.



Argymhellion gan yr IM Blaenorol Adroddiadau Blynyddol

Mae'r tabl yn Atodiad B yn crynhoi'r holl argymhellion blaenorol gan yr IM. Crynhoir y cynnydd ar unrhyw argymhellion gweddilliol isod.

Adroddiad Blynyddol 2014:

Gwnaeth yr IM argymhelliad yn Adroddiad Blynyddol 2014: 'Cyflwyno amserlen ffurfiol (o dri mis) i ymgeisydd anghytuno â datgeliad gwybodaeth am Dystysgrif Cofnodion Troseddol Manylach.'

Adroddiad cynnydd

Mae'r argymhelliad hwn yn dal i gael ei gefnogi gan yr holl randdeiliaid. Fodd bynnag, fel yr adroddwyd eisoes, er mwyn sicrhau newid ffurfiol i'r broses anghydfod fel hyn byddai angen newid i ddeddfwriaeth sylfaenol. O ganlyniad, ni ellir symud yr argymhelliad hwn ymlaen nes y bydd cyfle addas yn codi i ddiwygio'r ddeddfwriaeth berthnasol drwy Ddeddf Seneddol.

Yn y cyfamser, fel yr adroddwyd mewn Adroddiadau Blynyddol blaenorol, cyflwynodd fy rhagflaenydd broses strwythuredig i ddelio â'r math hwn o achos. Dywedir bod y broses hon wedi lleihau'r galw ar unedau datgelu'r heddlu.

Fodd bynnag, cydnabyddir o hyd y byddai ateb tymor hir, a gefnogir gan ddeddfwriaeth yn fuddiol. Mae'r argymhelliad hwn yn parhau i fod yn gyfredol.

Adroddiad Blynyddol 2019

Diwygio Canllawiau Statudol ar yr Aseiad Hygrededd

Yn Adroddiad Blynyddol 2019 fe wnes i argymhelliad fel a ganlyn:

Argymhelliad

'Dylai'r Swyddfa Gartref, gan weithio gyda'r heddlu, y DBS a rhanddeiliaid eraill, gynnal adolygiad o'r Canllawiau Datgeliad Statudol gan gyfeirio'n benodol at yr aseiad o hygrededd y wybodaeth'.

Cyhoeddodd y Swyddfa Gartref y Canllawiau Datgeliad Statudol diwygiedig (Trydydd Argraffiad) ym mis Tachwedd 2021. Felly, mae'r argymhelliad hwn bellach wedi'i gwblhau.

Ymgysylltu

Drwy gydol 2021 rwyf wedi parhau i ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid, trwy gyfarfodydd ar-lein a wyneb yn wyneb (pan oedd cyfyngiadau Covid-19 yn caniatáu). Rwy'n mynychu cyfarfodydd Datgelu Cenedlaethol a Rhanbarthol yr heddlu yn rheolaidd ac rwy'n aelod o Grŵp Portffolio Datgelu'r Heddlu. Rwy'n siarad yn rheolaidd gydag arweinwyr polisi a gweithredol o'r Swyddfa Gartref, DBS, ANI, NPCC ac unedau datgelu'r heddlu i nodi unrhyw faterion neu bryderon parhaus.

Samplo achosion

Rwyf wedi cynnal ymarfer samplu o anghydfodau a godwyd yn ystod 2021 fel sy'n ofynnol o dan adran 119B o Ddeddf yr Heddlu 1997. Mae'r sampl yn cynnwys achosion lle penderfynodd yr heddlu ddatgelu ac eraill ble wnaethon nhw benderfynu peidio â datgelu gwybodaeth.

Fe wnes i samplu cyfanswm o 61 achos eleni, wedi'u tynnu o ddeg heddlu gwahanol yng Nghymru a Lloegr, yn ogystal ag achosion sampl Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon (fel yr adroddwyd uchod). Eleni rwyf wedi samplu achosion ar sail thematig lle bo modd, gan ganolbwyntio ar achosion yn ymwneud â: lechyd meddwl, rolau Covid-19 a rhai nad ydynt yn rhai cartref, datgeliadau trydydd parti h.y., achosion pan ddatgelir gwybodaeth gan yr heddlu ar Dystysgrif ymgeisydd am rywun heblaw'r person sy'n gwneud cais i weithio gyda phlant neu oedolion bregus.

Ar ôl ystyried yn ofalus yr achosion a samplwyd yn 2021, nodwyd sawl pwynt dysgu cyffredinol trwy'r ymarfer hwn ac un pryder ychydig yn fwy sylweddol. Rwyf wedi rhoi adborth unigol i bob un o'r heddluoedd dan sylw i'w hystyried. Rwyf wedi rhannu'r dysgu generig o'r ymarfer samplu hwn ar lefel genedlaethol drwy Grŵp Portffolio Datgelu'r Heddlu ac yn fwy lleol drwy'r Fforymau Datgelu Rhanbarthol.

Ysgrifenyddiaeth y Monitor Annibynnol

Mae Ysgrifenyddiaeth yr IM yn gweinyddu llwyth gwaith yr IM ac yn darparu cymorth cyffredinol i swyddfa'r Monitor Annibynnol. Rwy'n werthfawrogi iawn o ymroddiad parhaus, gwaith caled a hyblygrwydd Ysgrifenyddiaeth y Monitor Annibynnol trwy gydol y flwyddyn arhagweladwy hon.

Crynodeb a Chasgliad

Trwy gydol 2021, roedd y gyfundrefn ddatgelu yn parhau i gael ei heffeithio gan y pandemig Covid-19 parhaus. Fodd bynnag, mae fy holl swyddogaethau statudol fel y Monitor Annibynnol wedi cael eu cynnal yn llwyddiannus trwy gydol y flwyddyn.

Cafodd 117 o achosion anghydfod datgelu eu hatgyfeirio at y Monitor Annibynnol i'w hadolygu yn 2021. Darperir dadansoddiad llawn o'r modd y cafodd yr achosion atgyfeirio IM hynny eu cwblhau isod.

Nid oes argymhellion newydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol hwn.



Julia Wortley
Monitor Annibynnol

Pwerau y mae'r Monitor Annibynnol yn gweithredu oddi danynt

Penodir y Monitor Annibynnol gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 119B o Ddeddf yr Heddlu 1997 ac mae ganddo ddwy ddyletswydd statudol yn ymwneud â datgelu gwybodaeth am Dystysgrif Cofnodion Troseddol Manylach person.



Yn unol ag adran 119B o Ddeddf yr Heddlu 1997 rhaid i'r Monitor Annibynnol adolygu sampl o achosion lle mae gwybodaeth yr heddlu nad yw'n ymwneud ag euogfarn yn cael ei chynnwys, neu heb gael ei chynnwys, ar Dystysgrifau Cofnodion Troseddol Manylach o dan adran 113B (4) o'r Ddeddf. Pwrpas yr adolygiadau hyn yw sicrhau ymlyniad wrth Ganllawiau Statudol y Swyddfa Gartref ar ddatgelu a chydymffurfio ag Erthygl 8 o Gonfensiwn Hawliau Dynol Ewrop (ECHR). Yn dilyn yr adolygiadau 'samplu dip' hyn, mae'r Monitor Annibynnol yn rhoi adborth i'r heddluoedd perthnasol.

O dan adran 117A o Ddeddf 1997, mae gan y Monitor Annibynnol rôl arall i ystyried yr achosion hynny y mae person yn credu bod yr wybodaeth a ddatgelwyd gan yr heddlu ynddynt o fewn Tystysgrif Cofnodion Troseddol Manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd naill ai ddim yn berthnasol i'r gweithlu y maent yn gwneud cais amdano, neu na ddylid ei datgelu.

Pan wneir cais am Dystysgrif fanylach, mae manylion yr ymgeisydd yn cael eu hatgyfeirio at unrhyw heddlu a allai ddal gwybodaeth am yr ymgeisydd. Mae hyn yn galluogi'r llu i wirio eu cofnodion am unrhyw wybodaeth y credant yn rhesymol ei bod yn berthnasol i'r diben rhagnodedig y ceisir y Dystysgrif ar ei chyfer ac ystyried a ddylid ei datgelu. Yn dilyn penderfyniad gan yr heddlu i ddatgelu gwybodaeth, os yw ymgeisydd yn dymuno anghytuno â pherthnasedd a/neu gymesuredd y datgeliad, cynhelir cam cyntaf proses adolygu'r IM, ar gais yr IM, gan yr heddlu datgelu perthnasol. Os yw'r ymgeisydd yn anfodlon ar ganlyniad adolygiad yr heddlu o'u anghydfod, atgyfeirir yr achos wedyn at yr IM am adolygiad annibynnol o'u hachos.

Gweithrediad yr Ysgrifenyddiaeth a swyddogaeth y Monitor Annibynnol

Cyflwynwyd cyfrifoldeb y Monitor Annibynnol i adolygu atgyfeiriadau lle mae ymgeiswyr yn dadlau ynghylch gwybodaeth a ddatgelir gan heddluoedd gan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 (PoFA). Sefydlwyd Ysgrifenyddiaeth fach i gefnogi'r Monitor Annibynnol i gyflawni'r swyddogaeth hon ym mis Hydref 2012 ac ar hyn o bryd mae ganddi sefydliad o ddau aelod o staff llawn amser.

Cyn mis Hydref 2012 a'r newidiadau a gyflwynwyd yn PoFA, roedd unrhyw un a oedd yn anfodlon ar gywirdeb y wybodaeth a ymddangosodd ar eu Tystysgrif fanylach dim ond hawl i apelio at Brif Gwnstabl yr heddlu perthnasol. Os oedd yr ymgeisydd yn anfodlon ar ganlyniad hyn, neu eiriad y testun, yna eu hunig opsiwn oedd gofyn am Adolygiad Barnwrol o'r penderfyniad datgelu. Byddai cam o'r fath yn gostus i'r ymgeisydd ac i'r DBS o ran yr amser a'r adnoddau. Rôl y Monitor Annibynnol bellach yw gweithredu fel haen ychwanegol o adolygu cyn y gall person droi at Adolygiad Barnwrol.

Ers Medi 2012 hyd at ddiwedd Rhagfyr 2021, mae'r Monitor Annibynnol wedi derbyn cyfanswm o 2,045 o atgyfeiriadau achosion.

Unwaith y bydd achos yn cael ei dderbyn, bydd Ysgrifenyddiaeth yr IM yn gofyn i'r heddlu am wybodaeth yn ymwneud â'r achos a'r ymgeisydd am unrhyw sylwadau ychwanegol y maen nhw am eu gwneud. Ar ôl derbyn unrhyw sylwadau pellach, mae'r achos yn cael ei gyflwyno i'r Monitor Annibynnol i'w adolygu. Mae papurau achos yn cynnwys y Dystysgrif ddatgelu a ddarperir gan y DBS, ynghyd ag unrhyw sylwadau ysgrifenedig a dogfennau ategol a gyflwynir gan yr ymgeisydd.

Wrth adolygu anghydfod, mae'r IM yn dilyn y Canllawiau Statudol ac yn ystyried:

1. P'un a yw'r wybodaeth a ddarperir yn gywir
2. P'un a yw'r wybodaeth a ddarperir yn berthnasol i'r diben rhagnodedig y cafwyd y dystysgrif ar ei chyfer (ers 2012 mae hyn yn gyffredinol ar gyfer gwaith o fewn y 'gweithluoedd plant neu oedolion' yn hytrach nag ar gyfer rôl benodol); a
3. P'un a ddylid datgelu'r wybodaeth, gan gynnwys;
 - a) Beth yw nod dilys y datgeliad?
 - b) P'un a yw'r datgeliad yn angenrheidiol i gyflawni'r nod cyfreithlon hwnnw; a
 - c) P'un a yw'r datgeliad yn gymesur, gan daro cydbwysedd teg rhwng hawliau'r ymgeisydd a hawliau'r rhai y mae'r datgeliad yn ceisio eu gwarchod.



Ystyrir pob maen prawf yn gyfartal, nid oes pwysoli. Unwaith y bydd yr IM wedi gwneud penderfyniad, bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn ysgrifennu at yr ymgeisydd, y DBS a'r Prif Swyddog heddlu perthnasol yn eu hysbysu o benderfyniad y Monitor Annibynnol.

Eglurhad

Nid yw'r Monitor Annibynnol yn delio â chwynion cyffredinol gan gwsmeriaid am y DBS. Ymdrinnir â'r rhain drwy weithdrefn gwyno'r DBS. Rôl yr IM yw ystyried atgyfeiriadau gan ymgeiswyr sy'n anghytuno â chynnwys gwybodaeth ddi-euogfarn o fewn eu Tystysgrifau datgelu manylach a gyhoeddwyd gan y DBS. Mae angen tystysgrifau o'r fath ar gyfer y rhai sy'n dymuno gweithio gyda phlant ac oedolion bregus ac mewn rhai swyddi penodol eraill fel gyrru tacsis.

Atgyfeiriadau Achosion i'r Monitor Annibynnol: Crynodeb 2021

Mae'r siart isod yn dangos nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd gan y Monitor Annibynnol yn 2021 a sut y cawsant eu datrys wedyn. Dangosir y ffigurau hyn o'u cymharu â'r blynyddoedd blaenorol.


Mae 'cynnal' yn cyfeirio at achosion lle mae datgeliad yr heddlu wedi cael cefnogaeth gan yr IM yn ei gyfarwydd.

Siart 1 Cynnal/Arall

Allwedd:


Cynnal ■

Canlyniad Arall ■



Mae Siart 2 yn dadansoddi'r categori 'canlyniad arall' (yn Siart 1 uchod), i ddangos yn fanylach sut y cafodd achosion lle na chafodd y datgeliad ei 'gynnal' eu cwblhau.

Siart 2 Canlyniad Arall



Bu cynnydd amlwg yng nghyfanswm yr atgyfeiriadau a wnaed i'r IM yn 2021, o'i gymharu â chyfeiriadau IM a wnaed y llynedd h.y., i fyny 34%. Fodd bynnag, rhaid trin 2020 a 2021 fel blynyddoedd perfformiad anomalaidd oherwydd effaith barhaus y pandemig Covid-19. Ar y cyfan, wrth ystyried y data tymor hir, mae tuedd ar i lawr yn parhau yng nghyfanswm yr atgyfeiriadau achosion anghydfod datgelu a wneir bob blwyddyn i'r IM (fel y dangosir yn Siart 1).


Mae rhai achosion atgyfeirio lle gellid egluro'r wybodaeth a ddatgelir trwy ddiwygio. Mewn achosion o'r fath, mae'r IM yn trafod gyda'r Prif Swyddog i gytuno ar ffurf ddiwygiedig ar eiriau. Mae'r achosion hyn yn cael eu categoreiddio uchod fel 'diwygiwyd gan yr heddlu'. Mae polisi'r IM blaenorol yn parhau yn ei le sef peidio ag adolygu rhagor o achosion o'r fath lle codir yr anghydfod ar ôl amser sylweddol o hir ers i'r datgeliad gael ei wneud ac lle nad yw'r pwrpas rhagnodedig yn bodoli mwyach, neu mae'n rhesymol credu bod hyn yn wir. Dosberthir yr achosion hyn fel "Wedi dyddio" yn siart 2.

Mae'r IM wedi gwrthod adolygu un achos anghydfod eleni allan o gyfanswm o 117 o atgyfeiriadau. Yn yr achos hwn, ni roddodd yr ymgeisydd ddigon o wybodaeth i esbonio sail eu anghydfod ac felly ni ellid bwrw ymlaen â'r achos. Yn ogystal, roedd tri achos lle penderfynodd yr ymgeiswyr yn eu tro eu bod yn fodlon ar destun y datgeliad fel y'i diwygiwyd gan yr heddlu ar y cam adolygu ac felly fe dynnodd pob un eu cais yn ôl am adolygiad IM annibynnol pellach. Cofnodir yr achosion hyn yn Siart 2 fel 'Tynnwyd yn ôl gan yr ymgeisydd'.

Gweithluoedd

Mae Siart 3 yn darparu cymhariaeth o'r gweithluoedd perthnasol y mae ymgeiswyr wedi gwneud cais amdanynt. Mae Siart 3 yn dangos bod cyfran yr achosion ym mhob Gweithlu yn parhau i fod yn gyson yn gyffredinol â blynyddoedd blaenorol, ond gyda chynnydd yng nghanran y 'Gweithlu oedolion' a gostyngiad cyfatebol mewn 'Gweithlu Plant'. Mae'r rhan fwyaf o anghydfodau (47% o atgyfeiriadau achosion anghydfod IM) yn dod o ymgeiswyr sydd wedi gwneud cais am weithlu Plant ac Oedolion.

Siart 3 Gweithlu %



Sylwer: Ni chofnodwyd unrhyw anghydfod yn y categori 'Gweithlu arall' yn 2012 na 2013 wrth i Yrwyrr Tacsis gael eu hystyried fel rhan o weithlu'r Plant yn ystod y blynyddoedd hynny.

Atodiad A



Home Office

Sarah Dines MP
Minister for Safeguarding

2 Marsham Street
London SW1P 4DF
www.gov.uk/home-office

Julia Wortley
Independent Monitor for DBS

By email:

2 December 2022

Dear Julia,

Thank you for your 2021 Annual Report which will be published on Gov.uk shortly. Your report provided a helpful overview of your work in 2021 with a variety of stakeholders, including regional disclosure units, different police forces and the Disclosure and Barring Service, to develop a consistent approach in relation to the disclosure of police information on enhanced criminal record certificates.

I notice that you have made no new recommendations in this report and that there is one outstanding which I have commented on below.

Time Limit for Disputing Disclosures

As previously advised, the recommendation to introduce a time limit for disputing disclosure will require an amendment to primary legislation. The recommendation will be considered if a suitable opportunity arises to amend the relevant legislation. In the meantime, I have noted that the interim solution put in place by your predecessor remains effective.

I thank you for your important work since taking on the role in October 2018.

Yours sincerely,

Sarah Dines MP

Atodiad B: Tabl o Argymhellion Blaenorol

Argymhelliad	Blwyddyn Wedi'i Wneud	Statws	Y Sefyllfa Bresennol
Iechyd Meddwl	2013	Wedi'i Dderbyn	Cyflawn Cyhoeddwyd canllawiau Statudol Diwygiedig ar gyfer achosion iechyd meddwl ym mis Awst 2015
Galwedigaethau yn y Cartref	2013	Wedi'i Dderbyn yn rhannol	Cyflawn Diwygiodd DBS ganllawiau'r ymgeisydd ac 'RB' yn 2015 a'u hyrwyddo yn Newyddion DBS
Gweithlu v Swydd y Gwnaed Cais amdani	2013	Ni Dderbyniwyd	Mater wedi'i godi eto yn Adroddiad Blynyddol 2014 ag ymateb blaenorol wedi'i ailadrodd
Cyrff Cofrestredig	2013	Wedi'i Dderbyn	Cyflawn Gweithiodd DBS gyda NACRO a CIPD i ddatblygu canllawiau i gyflogwyr ar sut i asesu a thrin gwybodaeth am dystysgrif ddatgelu
Amser Statudol Terfyn ar gyfer Anghydfodau	2014	Derbyniwyd ac yn aros am ddatblygu pellach	Parhaus Angen deddfwriaeth sylfaenol i fwrw ymlaen
Proses Ffurfiol i Adolygu Argymhellion	2014	Wedi'i Dderbyn	Cyflawn Strwythur cyfarfod yn ei le
Unedau Datgelu'r Heddlu i gael mynediad at Drawsgriafiadau Llys	2015	Wedi'i Dderbyn	Cyflawn Polisi a chanllawiau wedi'u hail-gyhoeddi i ddarparwyr trawsgriafiadau llys
Datblygu canllawiau ar Ddatgeliadau Trydydd Parti	2015	Derbyniwyd ac yn aros am ddatblygu pellach	Cyflawn Mae NPCC a'r Swyddfa Gartref wedi datrys y materion allweddol.
Diwygio'r Canllawiau Datgeliad Statudol	2019	Wedi'i Dderbyn	Cyflawn Cyhoeddwyd Canllawiau Datgeliad Statudol Diwygiedig ym mis Tachwedd 2021